# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 3 Mai 2018 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 3 Mai 2018 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 10Mai 2018 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn – Arweinydd y Cyngor

**PWNC**

Enwebu aelod i gynrychioli'r Cyngor ar Gyngor Llywodraeth Leol Cymru.

**PENDERFYNIAD –**

Enwebu'r Cynghorydd Gareth Thomas yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Mair Rowlands fel un gynrychiolwyr y Cyngor.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr adroddiad atodol

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd, adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodol.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn<br>Arweinydd Cyngor Gwynedd |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Sian Ellis Williams, Swyddog Dinesig a Chefnogi Aelodau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 3/5/18 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc :**

Enwebu aelod i gynrychioli'r Cyngor ar Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Enwebu'r Cynghorydd Gareth Thomas i gynrychioli Cyngor Gwynedd ar Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am gyfnod y Cyngor hwn.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Ar ddechrau tymor bob Cyngor mae gofyn enwebu aelodau i gynrychioli Cyngor Gwynedd ar restr o gyrff allanol.

Gan fod y Cynghorydd Mair Rowlands a fu'n cynrychioli'r Cyngor ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ers Mai 2017 wedi ymddiswyddo fel cynrychiolydd, mae Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn wedi enwebu'r Cynghorydd Gareth Thomas i gymryd ei lle. Cynrychiolwyr eraill y Cyngor ar Gyngor CLlC yw'r Cynghorwyr Dyfrig Siencyn a Dafydd Meurig.

Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yw corff llywodraethu'r gymdeithas. Mae Cyngor y gymdeithas yn gyfrifol am benodi swyddogion, trin a thrafod materion cyfansoddiadol a gweithredol, yn ogystal â hybu polisïau ar ran llywodraeth leol.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae'r argymhelliad yn adlewyrchu canlyniad y prosesau a amlygwyd uchod.

Bydd pecyn gwybodaeth ynglŷn â'r swyddogaeth a chyfrifoldebau gwasanaethu ar gorff allanol yn cael ei ddosbarthu i'r aelod.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid – Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

Swyddog Monitro – Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb